

Gwneud y pethau bychain

Cefndir

Dyma stori am ferch fach o Gymru sydd am ddeall ystyr gorchymyn Dewi Sant i 'wneud y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i'. Yn ôl pob sôn, dywedodd Dewi Sant y geiriau enwog hyn yn ystod ei bregeth olaf. Dyma eiriau sy'n adlewyrchu'r gred Gristnogol mewn byw bywyd da, moesol, bywyd sy'n ystyried pobl eraill. Maent yn eiriau hefyd sy'n cael eu hadleisio yn y Beibl, yn enwedig yn Philipiaid 4:9: 'Y pethau yr ydych wedi eu dysgu a'u derbyn, eu clywed a'u gweled, ynof fi, gwnewch y rhain; a bydd Duw'r tangnefedd gyda chwi.'

Dewi Sant yw nawddsant Cymru. Nid oes neb yn sicr pryd cafodd ei eni ond credir iddo farw ar 1 Mawrth 588 yn ei fynachlog yng Nglyn Rhosyn, Sir Benfro (a elwir yn Nhyddewi erbyn hyn). Roedd Dewi yn fab i Sandde (neu Sant), mab Cunedda brenin Ceredigion ac i Santes Non, lleian sanctaidd a merch pennaeth lleol. Ar adeg ei enedigaeth bu storm ffyrnig, tarodd mellit o'r awyr graig a'i rhannu'n ddwy, gan ddarparu man cysgodol i Non roi genedigaeth. Heddiw, mae'r fan lle digwyddodd hyn yn cael ei alw'n Gapel Santes Non ac mae'n agos at Dyddewi.

Digwyddodd dwy wyrth pan gafodd Dewi ei fedyddio. Yn gyntaf, ymddangosodd ffynnon er mwyn darparu'r dŵr ar gyfer y bedydd. Roedd yr hen offeiriad oedd yn cyflawni'r bedydd yn ddall ond ar ôl y bedydd, cafodd ei olwg yn ôl. Yn ôl y sôn, llwyddodd Dewi i helpu'r deillion i gael eu golwg yn ôl ar fwy nag un achlysur yn ei yrfa.

Digwyddodd gwyrth enwocaf Dewi yn Llanddewi Brefi. Ymgasglodd dyrfa fawr fel na allai neb glywed beth oedd yr un o'r esgobion a oedd wedi ymgynnull yno yn ei ddweud. Fodd bynnag, pan siaradodd Dewi, dechreuodd y tir oddi tano godi, gan ffurfio bryn yn y pen draw (y dywedir bod eglwys Llanddewi Brefi'n sefyll arno heddiw). Wrth iddo sefyll uwchlaw'r dorf, roedd pawb mewn syndod llwyr. Gallai pob un ei weld ac roedd ei lais yn glir i bawb ei glywed.

Pwrpas y llyfr hwn yw galluogi disgyblion ifanc i ddeall ystyr geiriau enwocaf Dewi Sant ac i ystyried eu perthnasedd i'w bywydau eu hunain heddiw.

Trosolwg o'r gweithgareddau a'r cysylltiadau â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Cwestiynau allweddol	Enghreifftiau o weithgareddau	Cysylltiadau â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
- Beth yw'r 'pethau bychain'? - Pam ddylem ni wneud y pethau bychain? - Sut gallwn ni helpu ein gilydd? - Pam mae pobl yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi?	- Rwy'n arbennig oherwydd... - Penderfyniadau! Beth ddylwn i ei wneud? - Fy nghacennau arbennig - Dyma fi'n gwneud y pethau bychain!	- Mynegi barn gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau. - Trafod pethau maent wedi eu gwneud, gan esbonio'r broses. - Cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl eraill a thrafod beth maent yn ei wneud. - Defnyddio unedau safonol i fesur pwysau a chynhwysedd.

Cysylltiadau â'r sgiliau yn y Fframwaith Addysg Grefyddol

Mewnwelediad i grefydd	Dylanwad ar bobl	Cwestiynau am greddoau a gweithredu	Ystyr
Sgiliau Bod yn ymwybodol o gyflawniadau pobl, gan gynnwys pobl grefyddol ddylanwadol yn y gorffennol a'r presennol, a'r 'syniadau mawr' sydd wedi llunio'r byd. Ffocws Pam ydym ni'n dathlu? Archwiliwch wahanol ddathliadau, e.e. pen-blwyddi, y Cynhaeaf, y Nadolig a'r Pasg. Pam pwysleisiodd Dewi Sant bwysigrwydd gwneud y 'pethau bychain'? (Cysylltiadau â'r Rheol Euraidd mewn Cristnogaeth, dysgeidiaeth Iesu a'r Beibl.) Oes gan Gristnogion lyfr arbennig sy'n rhoi arweiniad iddynt? Pa bobl grefyddol ddylanwadol eraill y mae'r plant yn gwybod amdanynt?	Sgiliau Cymharu ac adnabod nodweddion tebyg a gwahanol mewn hunaniaeth, ffordd o fyw, cymuned a thraddodiad. Ffocws Sut mae plant Cymru'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi? Sut mae gwledydd eraill yn dathlu eu nawddsaint eu hunain (e.e. Diwrnod Sant Padrig yn Iwerddon)? Pam mae pobl yng Nghymru'n gwisgo lan ar Ddydd Gŵyl Dewi? Sut mae crefyddau eraill yn dathlu'r hyn sy'n bwysig iddynt? Ydych chi'n meddwl bod pobl mewn gwledydd eraill yn meddwl bod holl bobl Cymru'n gwisgo dillad traddodiadol Gymreig heddiw?	Sgiliau Nodi'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn iawn ac anghyfiawn, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol. Ffocws Beth oedd Dewi Sant yn ei olygu pan ddywedodd 'gwnewch y pethau bychain'? Meddyliwch am enghreifftiau o Gristnogion (e.e. y Fam Teresa) sydd wedi helpu pobl eraill. Pam oedd helpu pobl eraill yn bwysig iddynt? Pwy ddylen ni eu helpu? Sut gallwn ni eu helpu nhw? Meddyliwch am ffyrdd y gallech helpu'ch teulu... eich ffrindiau... ayyb. A allwn garu pobl nad ydynt yn ffrindiau i ni? Sut?	Sgiliau Ystyried canlyniadau geiriau a gweithredoedd arnynt hwy eu hunain ac ar bobl eraill. Gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd a dangos gofal ac ystyriaeth. Ffocws Pam mae Dydd Gŵyl Dewi'n bwysig i bobl yng Nghymru? Beth yw'r gwahanol ffyrdd y mae Dydd Gŵyl Dewi'n cael ei ddathlu? Pam mae pobl yn cynnal gwyliau a dathliadau? Beth sy'n eich gwneud chi'n drist, yn ofnus neu'n unig? Beth all pobl ei wneud pan fyddant yn drist yn ofnus neu'n unig? Sut ydym ni'n helpu pobl eraill sy'n drist, yn ofnus neu'n unig?

Mwy o ddyfnder	Archwilio cyfrifoldeb	Ymateb personol
Sgiliau Dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd a dysgu, yn enwedig wrth ddysgu am bobl o grefyddau a diwylliannau eraill. Ffocws Beth ydych chi'n ei hoffi am yr ysgol? Pa ddiwrnod sy'n arbennig i chi? Pa ddiwrnodau allai fod yn arbennig i Gristnogion...i Fwslimiaid ayyb? Beth fyddai Mwslim yn ei wneud i ddathlu Eid? Beth fyddai Iddew'n ei wneud i ddathlu'r Pasg Iddewig (<i>Pesach</i>)?	Sgiliau Datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel rhan o wahanol gymunedau a deall eu hunaniaeth eu hunain. Ffocws I ba grwpiau neu glybiau ydych chi'n perthyn? Sut ydych chi'n dangos eich bod yn perthyn? Sut ydych chi'n dangos eich bod chi'n falch o berthyn i'r grŵp hwnnw? Sut gallwn ddangos parch at bobl eraill sy'n perthyn i wahanol grwpiau?	Sgiliau Meddwl am gwestiynau amdanynt eu hunain, pobl eraill a phethau byw, gofyn y cwestiynau hynny a gwrandao ar yr atebion. Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml, gan eu hystyried o safbwyntiau crefyddol a rhoi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir. Ffocws Pa 'bethau bychain' allwn ni eu gwneud i wneud bywydau pobl eraill yn well ac yn hapusach? Sut gall gwneud 'pethau bychain' wneud 'cymaint o wahaniaeth'? Sut gall helpu pobl eraill ein gwneud ni'n hapus?

Gweithgareddau

Rwy'n arbennig oherwydd ...

- Trafodwch pam mae rhai pobl a llyfrau'n arbennig ym mywydau pobl.
- Rhannwch a chyflwynwch bobl sy'n arbennig i chi gyda'r plant a dywedwch wrthynt pam maen nhw mor arbennig i chi.
- Anogwch y plant i siarad am bobl sy'n arbennig iddynt ac esboniwch beth sy'n eu gwneud nhw mor arbennig. Beth maen nhw'n ei wneud? Ydyn nhw'n gwneud y pethau bychain?
- Gofynnwch i'r plant gofnodi eu teimladau a'u syniadau gyda darluniau/ysgrifen (tudalen 34).

Penderfyniadau! Beth ddylwn i ei wneud?

- Trafodwch yr enghreifftiau o 'wneud y pethau bychain' yn y stori.
- Anogwch y plant i feddwl am a rhannu enghreifftiau o'u hunain/o bobl eraill yn gwneud y pethau bychain mewn gwahanol sefyllfaoedd (yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gymuned ayyb).
- Gweithgaredd datrys problemau lle gofynnir i'r plant edrych ar y gwahanol sefyllfaoedd ar y cardiau a phenderfynu pa rai yw'r eithriadau (tudalennau 35 - 37).
- Anogwch y plant i esbonio pam maen nhw wedi dewis y cardiau hyn.
- Gofynnwch i'r plant ystyried penderfyniadau/ymatebion gwahanol.

Dyma fi yn gwneud y pethau bychain!

- Trafodwch y gwahanol ffyrdd y gwnaeth Alys y 'pethau bychain' i helpu pobl eraill, e.e. rhoi cenhinen Pedr i Siân; annog Megan i ganu er gwaetha'i diffyg hyder; sicrhau bod ei brawd yn gysurus ar ôl dod adref o'r ysgol; helpu ei mam i wneud pice bach; rhannu ei phice bach gyda'i mam-gu a threulio amser gyda hi'n dweud wrthi am ei diwrnod.
- Gofynnwch i'r plant feddwl am adegau maen nhw wedi gwneud pethau bychain i helpu pobl eraill. Gallai'r enghreifftiau gynnwys: gofyn i rywun heb ffrind i chwarae gyda nhw ac ymuno mewn gêm; agor drysau i rywun; golchi llestri yn y cartref; a dweud 'diolch' neu roi sylw caredig i berson arall.
- Gofynnwch i'r plant dynnu lluniau ohonynt eu hunain yn gwneud y 'pethau bychain' i helpu pobl eraill. Tynnwch ffotograffau o'r plant dan sylw yn gwneud pethau caredig. Gofynnwch iddynt ysgrifennu brawddegau'n disgrifio'u gweithredoedd.

Fy nghacennau arbennig

Fel sawl teulu arall, mae Alys a'i mam yn gwneud pice bach ar Ddydd Gŵyl Dewi. Ceir sawl enw Cymraeg gwahanol ar gyfer y cacennau hyn gan gynnwys: pice bach, picau ar y maen, cacs bach, cacennau cri a theisennau radell. Enw Saesneg llai adnabyddus amdanynt yw *griddle cakes*. Un ffordd y gallai plant ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yw trwy wneud (a bwyta) pice bach.

Cynhwysion:

- 225g blawd
- 100g menyyn
- 1 wy wedi'i guro
- 50g o gyrens
- llaeth
- 85g siwgr mân
- llwy de o bowdr pobi
- llwy de o sbeis cymysg

Gwneud:

- Rhwbiwch y menyyn i'r blawd wedi'i ridyllu i wneud briwsion bara. Ychwanegwch y siwgr, cyrens sych ac yna'r wy. Cymysgwch i gyfuno, wedyn ffurfiwch belen o does, gan ddefnyddio ychydig o laeth os oes angen.
- Rholiwch y crwst hyd nes ei fod yn 5mm o drwch a thorrwch e'n gylchoedd gyda thorrell rychog 7.5-10cm.
- Rhwbiwch y planc neu ridyll haearn trwm gyda menyyn.
- Rhowch ef ar wres uniongyrchol ac arhoswch nes iddo gynhesu.
- Rhowch y pice bach ar y gridyll, gan eu troi unwaith.
- Mae angen rhyw 2-3 munud ar bob ochr. Mae angen i bob ochr fod yn lliw brown caramel cyn troi.
- Tynnwch nhw i fwrdd ac ysgeintiwch siwgr mân drostynt tra byddant yn dal i fod yn gynnes.


Anogwch y plant i gofnodi'r broses o wneud y cacennau ar lafar, gan dynnu lluniau, ysgrifennu'r cyfarwyddiadau, ayyb. Defnyddiwch y templed ar dudalen 38 i'w cefnogi.

Gweithgareddau pellach/Cysylltiadau â Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen

- Trafodwch ddathliadau ym mywydau plant, e.e. pen-blwyddi a Nadolig. Pam rydym ni'n dathlu? (genedigaeth person, bywyd rhywun enwog neu rywbeth sydd wedi digwydd yn ei fywyd neu ei bywyd, dweud diolch i Dduw).
- Trafodwch pam rydym yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd Dewi'n ŵr da iawn oedd yn dysgu pobl sut i fyw eu bywydau ac i feddwl am bobl eraill. Dewi yw 'nawddsant' Cymru. Roedd Dewi Sant yn darparu esiampl i'r Cymry ei dilyn.
- Trafodwch pam mae dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn bwysig i'r Cymry. Beth mae'n ei olygu i berthyn i genedl?
- Trafodwch beth sy'n digwydd pan fydd dathliad yn cael ei gynnal, e.e. gwneud addurniadau; gwneud ac anfon cardiau; paratoi a bwyta bwydydd arbennig; ymuno â phobl eraill sy'n dathlu hefyd; gwneud gwahoddiadau a'u hanfon; meddwl am a gwrando ar straeon am y person neu'r digwyddiad a ddethlir;

rhoi anrhegion; chwarae gemau.

- Cynlluniwch a chynhaliwch ddathliad o fywyd Dewi Sant yn yr ystafell ddosbarth.
- Dysgwch am fywyd Dewi Sant. Ceir sawl gwefan sy'n rhoi gwybodaeth i athrawon a disgyblion am fywyd Dewi Sant.
- Beth sy'n digwydd ar Ddydd Gŵyl Dewi? Edrychwch ar lun o Dewi Sant gyda'r disgyblion ac atgoffwch nhw pam mae ei fywyd yn cael ei ddathlu ar 1 Mawrth bob blwyddyn yng Nghymru.
- Darllenwch a thrafodwch y llyfr 'Gwneud y pethau bychain'. Esboniwch beth sy'n digwydd ar Ddydd Gŵyl Dewi mewn sawl ysgol yng Nghymru. Tynnwch eu sylw at y dillad sy'n cael eu gwisgo gan rai plant ar y diwrnod hwn; y defnydd o gennin Pedr a chennin; yr arfer o ganu caneuon ac adrodd cerddi; bwyta pice bach.
- Edrychwch ar ffotograffau o ddisgyblion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrafodwch brofiadau'r disgyblion eu hunain o'r diwrnod.
- Trafodwch y geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â'r diwrnod fel: Dydd Gŵyl Dewi; sant arbennig; het ddu; sgert hir; ffedog wen; siôl; gwasgod; capan fflat; cennin Pedr; cennin a phice bach. Gan ddefnyddio'r geiriau allweddol hyn a chan ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu adroddiad o'r hyn sy'n digwydd ar Ddydd Gŵyl Dewi.
- Gwnewch lyfr dosbarth yn dwyn y teitl 'Dathlu Dydd Gŵyl Dewi'. Cofiwch gynnwys gwaith ysgrifenedig y plant yn ogystal â ffotograffau o'u dathliad eu hunain o'r diwrnod.
- Gwneud y pethau bychain - Y Rheol Euraidd. Dangoswch Feibl i'r disgyblion a dywedwch wrthynt mai llyfr arbennig y Cristnogion ydyw. Y rheswm am hyn yw ei fod yn dweud wrthynt am fywydau llawer o bobl allweddol yn eu crefydd ac mae'n dweud wrthynt hefyd sut y dylent fyw eu bywydau.
- Trafodwch Reol Euraidd Cristnogaeth sydd i'w gweld yn y Beibl – trin pobl eraill fel yr hoffem ni gael ein trin. Dyma beth ddysgodd Iesu i'w ddilynwyr. Trafodwch enghreifftiau o hyn yn ymarferol gyda'r plant. Rhwch enghreifftiau o Gristnogion sydd wedi helpu pobl eraill fel y Fam Teresa'n helpu'r tlodion yn India.
- Dywedodd Iesu wrthym am garu pawb, hyd yn oed os nad oeddent yn ffrindiau i ni. Allwn ni garu pobl nad ydynt yn ffrindiau i ni? Sut?
- Ar ddiwedd y llyfr, mae mam-gu Alys yn dweud wrthi efallai nad yw gweithredoedd bach o garedigrwydd i weld yn llawer ond gallant wneud gwahaniaeth mawr, yn enwedig pan fydd llawer o bobl yn gwneud pethau bychain i helpu pobl eraill. Trafodwch y cysyniad hwn gyda'r disgyblion. Sut byddai bywyd yn gwella petai pawb yn gwneud y 'pethau bychain'?
- Fel rhan o weithred addoli, gallai'r stori 'Gwneud y pethau bychain' gael ei dweud/darllen i'r plant. Gallai hyn gael ei ddilyn gan ddisgyblion yn dangos eu lluniau ac yn darllen eu brawddegau. Gallai'r weithred o addoli ddod i ben gydag ennyd o fyfyrddod tawel lle gallai disgyblion gael eu hannog i feddwl ynghylch sut gallent wneud pethau bychain i wella bywydau pobl eraill.
- Dangoswch luniau a ffotograffau'r plant gyda'u brawddegau. Rhwch deitl i'r arddangosfa fel 'Gwneud y pethau bychain i helpu pobl eraill'.
- Trafodwch gyda'r disgyblion sut mae pobl yn defnyddio dillad, symbolau ac arwyddion i ddangos eu bod yn rhan o grŵp. Trafodwch pa grwpiau maent yn perthyn iddynt - teulu, grŵp afancod, ayyb. Sut maen nhw'n dangos eu bod yn rhan o grŵp? Sut dylent edrych ar bobl sy'n perthyn i grwpiau eraill neu grefyddau eraill?



Tynnwch lun o'ch hunan.

Fy enw i yw


Rwy'n arbennig oherwydd ...

Penderfyniadau! Beth ddylwn i ei wneud?

Set 1




Penderfyniadau! Beth ddylwn i ei wneud?
Set 2



Penderfyniadau! Beth ddylwn i ei wneud?

Set 3





Fy nghacennau arbennig



rhwbio

torri

rholio

troi

coginio

pobi

cymysgu

mesur

ychwanegu

